

Trefnir gan Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru  
ar Clwstwr Bwyd Da – Llais y Diwydiant Bwyd a Diod




# TUCK IN™ DOSBARTH MEISTR MARCHNATA BWYD A DIOD

Dydd Iau 16ain Mai 2019 | 9yb-5yp | Gwinllan Llannerch Hensol | Bro Morgannwg | CF72 8GG



Chris Haywood  
KANTAR  
WORLD PANEL



Jim Cregan  
JIMMY'S  
ICED COFFEE




Rupert Ellwood  
WAITROSE



Lucy Wright  
NICE



Nicol  
Harrison-Dwyer



David Levin  
THAT LOT  
SOCIAL MEDIA




Glenn Tutssel  
BRAND  
INSPIRATION LTD



Tessa Stuart  
IN STORE BRAND  
RESEARCH



Ilana Taub  
SNACT



Caroline Hanna

KANTAR WORLD PANEL



Waitrose



- SIARADWYR GWADD
- COFRESTRWRCH AM SESIYNAU UN-I-UN GYDAG ARBENIGWYR BLAENLLAW O'R DIWYDIANT



Brif Siaradwraig:

### Lesley Griffiths AC

Gweinidog yr Amgylchedd,  
Ynni a Materion Gwledig

TUCK IN™ Dyma ddigwyddiad i'ch ysbrydoli a drefnir gan **Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ar Clwstwr Bwyd Da**. Prif ffocws y diwrnod fydd gwrando ar yr hyn sydd gan ymarferwyr a pherchnogion brandiau bwyd a diod i'w ddweud i'ch galluogi i ddatblygu eich dulliau marchnata. Bydd yn gyfle unigryw i glywed gan gyfathrebwyr blaenllaw sydd â'r sgiliau i ledaenu'r neges, creu brand llwyddiannus ar gyfer y farchnad a sicrhau perfformiad sy'n hybu gwerthiannau.

- Cymerwch gam yn ôl i feddwl o ddifrif am eich cynllun marchnata ar gyfer y cam nesaf yn nhwf eich busnes
- Gwrandewch ar y meddylfryd diweddaraf gan brif frandwyr a manwerthwyr heriol
- Dealltwriaeth o'r farchnad – dewch i wybod ble mae'r tueddiadau diweddaraf yn debygol o fynd â ni
- Cofrestrwch am sesiynau un-i-un gydag ymarferwyr o'r diwydiant
- Cyfle i rwydweithio ag eraill yn y diwydiant bwyd a dio

**TUCK IN™** DOSBARTH MEISTR  
MARCHNATA  
BWYDADIOD

Mae TUCK IN™ wedi'i fwriadu ar gyfer rhai sy'n gweithio mewn cwmnïau bwyd a diod yng Nghymru. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, felly rydym yn cynghori eich bod yn archebu cyn gynted â phosib.



KANTAR  
WORLD PANEL

### Chris Hayward

Pennaeth Datblygu Busnes y DU  
Kantar Worldpanel

#### TUEDDIADAU AC ARLOESI

- Dadansoddiad manwl o fanwerthu Prydain v Cymru – a'r prif newidiadau yn nhueddiadau siopwyr. Pwy sy'n tyfu a pham?
- Dadansoddiad manwl o weithgarwch oddi allan i'r cartref Prydain v Cymru – y prif dueddiadau sy'n dod i'r amlwg, pa feysydd sy'n tyfu?
- Treth siwgr etc – beth ydyn ni'n ei weld? Oes effaith wedi bod ar unrhyw gategori dros y flwyddyn ddiwethaf ac arwyddion o effaith y dreth?
- Sut mae gwahanol categorïau'n dod ymlaen?
- Y twf o ran "iechyd" yn arwain arloesi, gan gynnwys protein, di-alergedd, bwyd daionus, etc.



NICE  
WINE FOR WHENEVER

### Lucy Wright

Cyd-sylfaenydd, **Nice**

#### CREU BRAND ARLOESOL

**Nice** yw'r gwin llonydd mewn tun cyntaf yn y Deyrnas Unedig, sy'n tarfu ar hen gategori ffoenuchel drwy greu brand sy'n gweddu'n dda i ddull o fyw penodol y bydd merched (a dynion) eisiau i bobl eu gweld yn ei yfed. Mae'n win i bob merch, ie, hyd yn oed prydferthion Instagram; un sy'n dathlu uchafbwyntiau ac isafbwyntiau bywyd pob dydd – y da, y gwael a'r hynod wirion. Lansiodd **Nice** yn Sainsbury's ledled Prydain ym mis Chwefror 2019 a gallwch ei brynu hefyd yn Sourced Market, Amazon, gan gwmnïau annibynnol ac mewn gwyliau.



That Lot

### David Levin

Cyfarwyddwr Creadigol,  
That Lot Social Media

#### DOSBARTH MEISTR CYNNWYS CYMDEITHASOL: Y GORAU A'R GWAETHAF O'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

I'ch helpu i wella'ch sgiliau ar y cyfryngau cymdeithasol, bydd David Levin yn mynd â chi ar daith drwy'r cynnwys gorau a gwaethaf a welwyd ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar. Sefydlodd David ei asiantaeth gymdeithasol, That Lot, gyda'r awdur/actor/digrifwr David Schneider. Mae'r asiantaeth yn creu cynnwys ac yn rhedeg ffrydiau cymdeithasol ar gyfer Channel 4, Jamie Oliver, Nando's a Have I Got News For You. Bydd y sgwrs yn rhoi sylw i dôn llais, dyluniad, fideo, darlledu byw, hybu drwy gymdeithasu, ac arloesi cymdeithasol, gyda ffocws ar frandiau bwyd a diod.



Jimmy's Iced Coffee

### Jim Cregan

Sylfaenydd, Jimmy's Iced Coffee

#### O DDIDORDEB I ELW

Mae sylfaenydd Jimmy's Iced Coffee yn rhannu ei stori o sefydlu un o hoff frandiau coffi'r Deyrnas Unedig. Mewn pum mlynedd mae Jimmy's Iced Coffee wedi datblygu o fod yn arbrawf yn ystafell gefn caffi yn Dorset i fod yn frand cydnabyddedig ar gael yn Waitrose, Ocado, Tesco, Morrisons a Whole Foods. Eu llinell farchnata yw 'Keep Your Chin Up' a dyma sydd wrth wraidd holl waith Jimmy's.



Waitrose

### Rupert Ellwood

Pennaeth Marchnata, Waitrose

#### BRANDIAU Â PHWRPAS

Mae Rupert yn arweinydd diffuant sy'n gallu ysbrydoli pobl. Mae wedi ymrwymo'n llwyr i frand Waitrose ac mae'n barod iawn i gynnig ffyrdd newydd o wella gwasanaeth y cwmni i gwsmeriaid. Mae optimistaeth Rupert yn heintus. Bydd yn chwilio am gyfleoedd newydd a, heb fod yn fyrbwyll, bydd bob amser yn annog eraill i beidio â dewis strategaethau 'saff', gan ffafrio syniadau newydd ac arloesol.



## Glenn Tutssel

Sylfaenydd, Brand Inspiration Limited

### CREFFT CREU BRANDIAU

Ganed Glenn yn Y Bari, Bro Morgannwg, De Cymru, a graddiodd o Goleg Cyfathrebu Llundain gyda Gradd Dosbarth Cyntaf mewn Dylunio Graffeg a Chyfathrebu.

Yn 1993 creodd a chyd-sefydlodd Brand Union gyda Martin Lambie Nairn oedd yn arbenigo mewn brandio ar gyfer y sgrin ac oddi ar y sgrin. Mae eu cleientiaid wedi cynnwys y BBC, S4C, BT, y Post Brenhinol, William Grant a Diageo. Ar ôl gwerthu Brand Union yn 2001 i WPP, aeth Glenn ati i sefydlu Brand Inspiration yn 2014 sy'n arbenigo mewn brandiau premiwm. Mae Glenn yn gyfarwyddwr anweithredol i'r Welsh Whisky Company a chreodd y brand Penderyn. Mae Glenn hefyd yn Rhyddfrefreiniwr i Ddinas Llundain. Mae wedi ennill nifer o wobrau am ei waith, yn cynnwys wyth Gwobr Rhagoriaeth Communications Arts, pedwar Pencil Melyn D&AD, pedwar gwobr Clio Rhyngwladol, gwobr Graphis Platinwm ac Aur a gwobr Roland Hill y Post Brenhinol.




## Nicol Harrison-Dwyer

### GWASANAETH BWYD YN LLUNDAIN

Mae gan Nicol 20 mlynedd o brofiad yn y diwydiant lletygarwch sydd wedi cynnwys amrywiaeth o fusnesau megis Carluccio's ac All Star Lanes, ac mae hi wedi bod yn Rheolwr Marchnad i Dinerama Shoreditch gyda London Union. Mae Nicol yn awr yn Rheolwr Cyffredinol i Grind & Co, sef brand coffi a bwyty llwyddiannus yn Llundain sydd â safleoedd ar draws y ddinas sy'n troi'n fariau ar ôl oriau mawrion. Mae hi wedi gweithio gyda brandiau mawrion a chwmnïau annibynnol yn fach a mawr, bwyd stryd, bwytai dros dro, parhaol, busnesau newydd, safleoedd amlweddol a mwy.

Bydd **TUCK IN™** yn cynnig cyfle ichi gofrestru am sesiynau un-i-un pymtheng munud gydag ymarferwyr yn y diwydiant. Bydd y sesiynau un-i-un yn cael eu cynnal ochr yn ochr â rhaglen siaradwyr TUCK IN™ yn ystod y dydd.

Pan fyddwch yn cofrestru i fynychu TUCK IN™, cewch ddewis a ydych am wneud apwyntiad am sesiwn ai peidio.



## Caroline Hanna

Cyfarwyddwr, Authentic Marketing

**Bydd Caroline yn rhoi cipolwg i chi ar y broses o frandio, dewis safle ac adnabod eich defnyddiwr targed er mwyn datblygu strategaeth Farchnata lwyddiannus.**

Mae Caroline yn Ymgynghorydd Marchnata Bwyd sy'n arbenigo mewn Brandio, Strategaeth Farchnata a Chyfathrebu. Cafodd ei phrofiad eang yn y diwydiant ar y lefelau uwch mewn sefydliadau sy'n amrywio o gwmnïau rhyngwladol FMCG-nwyddau gwerthu sy'n symud yn gyflym (MARS) i fusnesau bach a chanolig a chynhyrchwyr artisan bychain. Mae hi'n gyfathrebwr rhagorol sydd â hanes da o ddatblygu brandiau graddfa fach lleol i fod yn llwyddiannau pan-Ewropeaidd. Mae ei gwaith diweddar wedi canolbwyntio ar y diwydiant Bwyd yng Nghymru gyda llwyddiant sylweddol, yn cynnwys datblygu brand gwerth miliynau o bunnoedd Blas y Tir ar gyfer y busnes sy'n eiddo i dyfwrwr, Puffin Produce Ltd. Mae hi'n fentor ac yn hyfforddwr hynod brofiadol sydd â gwybodaeth arbenigol am bob elfen o'r cymysgedd marchnata. Mae ganddi arbenigedd mewn sefydlu cynlluniau marchnata strategol a chost-effeithiol, i gyrraedd mwy o gwsmeriaid ac i arwain at dyfiant busnesau.



## Tessa Stuart

Ymchwilydd Cynhyrchion a Strategydd

**Cyfle i gael adborth ar frandio, negeseuon a phresenoldeb amlwg ar y silff - bydd uned silffoedd manwerthu ar gael i helpu'r drafodaeth**

Mae Tessa Stuart yn cyfweled cannoedd o siopwyr bob blwyddyn, wrth silffoedd yr archfarchnad wrth iddynt brynu cynhyrchion bwyd. Mae'n gweithio gyda brandiau bydeang a brandiau un-person i wneud gwaith ymchwil ar gyfer eu cynhyrchion gyda siopwyr go iawn ac i sicrhau bod eu brand yn sefyll allan yn dda. Mae wedi ysgrifennu dau frig-lyfr busnes bwyd, sef Packed: The Food Entrepreneur's Guide a Flying Off The Shelves. Mae'r ddau lyfr ar gael ar Amazon.



## Ilana Taub

Cyd-sylfaenydd, SNACT ac MI Consulting

**'Awdit' cynaliadwyedd 15 munud sy'n craffu'n fanwl ar alluoedd cynaliadwyedd, negeseuon a strategaeth brandiau**

Mae Ilana Taub yn gyd-sylfaenydd SNACT ac MI Consulting. Mae SNACT yn creu byrbrydau blasus, iachus o ffrwythau sydd heb werthu yn y Deyrnas Unedig, a fyddai fel arall yn cael eu taflu fel sbwriel. Mae'n eu pacio mewn deunydd pecynnu heb blastig y gellir ei gompostio er mwyn ceisio lleihau gwastraff plastig. Cyn cychwyn SNACT, roedd Ilana yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau yn ymwneud â chyllid a chynaliadwyedd. Yn 2014, cafodd ei dewis yn un o Arweinwyr Llundain gan GLA (Awdurdod Llundain Fwyaf) a Maer Llundain, ac mae hi'n gymrodor i'r grŵp Unreasonable - sef sefydliad sy'n anelu i gefnogi mentwrwyr sy'n plygu hanes i'r cyfeiriad cywir. Yn 2018, cafodd SNACT ei werthu i GFT Retail. Mae Ilana erbyn hyn yn treulio ei hamser yn helpu busnesau bwyd a diod eraill i fod yn gynaliadwy.







## Russell Ferguson

Marchnatwr Siartredig ac Arbenigwr  
Marchnata Bwyd a Diod

Mae Russell yn Farchnatwr Siartredig sydd â 30 mlynedd o brofiad o ddarparu atebion marchnata a gwerthu ymarferol i gwmnïau sy'n gweithio mewn marchnadoedd cartref a marchnadoedd allforio. Mae gan Russell brofiad helaeth o weithio gyda busnesau bwyd a diod o Gymru. Mae'n enwog am gynnig syniadau strategol a chynghor ymarferol drwy gynnal sggyrsiau ar farchnata i grwpiau mawr, cynnal arddangosfeydd a darparu ymyriadau 'un i un' ar faterion marchnata a gwerthu arbenigol. Mae'n Farchnatwr Siartredig ac mae ganddo gymhwyster ôl-radd mewn addysgu.

## Llanerch Vineyard

Mae safle Llanerch Vineyard ddau funud mewn car o Gyffordd 34 yr M4. Ewch oddi ar briffordd yr M4 ar Gyffordd 34, cymerwch y ffordd ymadael gyntaf os ydych yn dod o'r Dwyrain (Llundain) neu'r drydedd ffordd ymadael os ydych yn dod o'r Gorllewin (Caerfyrddin). Yna cymerwch y ffordd gyntaf ar y dde tuag at Pendoylan. Unwaith eto, cymerwch eich ffordd gyntaf ar y dde (tua 300m). Dilynwch y ffordd o amgylch y gornel ac i fyny'r bryn heibio i res o dai. Parhewch i ddringo'r bryn am 200m, a byddwch yn gweld arwyddion Llanerch Vineyard ar eich ochr dde.

## Cinio TUCK IN™

Bydd 18 o gogyddion, dan arweiniad y Prif Gogydd Gweithredol Michael Hudson yn darparu cinio bwffe sydd wedi'i gynnwys yn y ffi i fynychwyr.



## I GADW LLE

Y gost yw £25 + TAW i bob cynrychiolydd sy'n cynnwys cinio bwffe gan Gogyddion Llanerch Vineyard. Byddem yn eich cynghori i gofrestru'n fuan am fod nifer y lleoedd yn gyfyngedig. Gadewch i ni wybod am unrhyw ofynion dietegol sydd gennych. I gadw eich lle anfonwch e-bost at Siân Stacey

**e:** [sian.stacey@menterabusnes.co.uk](mailto:sian.stacey@menterabusnes.co.uk)

**ff:** 07957 191908

**TUCK IN™** DOSBARTHMEISTR  
MARCHNATA  
BWYDADIOD

Trefnir gan Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ar  
Clwstwr Bwyd Da – Llais y Diwydiant Bwyd a Diod

Tyfu busnes trwy gydweithio

